# DOLEN

## YSGOL BRO TEIFI

**Rhifyn 5- 25ain o Hydref 2024**

## Neges y Pennaeth

Croeso i chi i rifyn mis Hydref o Dolen. Ar ddiwedd hanner tymor prysur iawn eto, mae hwn yn gyfle i mi eich diweddaru ar ambell i beth gan gynwys newidiadau i bolisi gwisg yr ysgol o Fedi 2025.

Byddaf hefyd yn rhannu gyda chi beth yw ein blaenoriaethau gwella ysgol eleni a nodi sut gallwch chi fel rhieni a gofalwyr ein cefnogi i gyrraedd y nod. Un elfen bwysig sydd angen cryfhau yaw presenoldeb disgyblion yn yr ysgol. Yn anffodus, rydym yn parhau i weld lefelau presenoldeb is na'r disgwyl ymysg rhai disgyblion, yn enwedig o flwyddyn 10 i fyny. Atgoffwch eich plant o'r pwysigrwydd o fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae ystadegau yn dangos yn glir y cywsllt rhwng lefelau presenoldeb uchel a llwyddiant mewn arholiadau TGAU. Mae pob diwrnod yn cyfri'!

Cewch wybod hefyd beth mae ein fforymau newydd yn gobeithio cyflawni eleni ac mae diweddariad hefyd o rai dyddiadau pwysig sydd wedi gorfod newid o ganlyniad i ymweliad Estyn ym mis Tachwedd.
Cofiwch am y noson i rieni a gofalwyr gyda Estyn ar Nos Lun yr 11eg o Dachwedd rhwng 5 a 6.

Diolchaf i chi eto am eich cefnogaeth yn ystod yr hanner tymor. Gobeithio cewch chi peth seibiant dros y gwyliau ac edrychaf ymlaen i groesawu eich plant yn ol ar y 4ydd o Dachwedd.
Yn gywir,



G Evans

**Amserau Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth**

**Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)**
**Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)**

**I wneud apwyntiad, ewch i**


**https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/**



# NEWID DYDDIADAU

Hoffwn dynnu eich sylw at y digwyddiadau canlynol sydd wedi newid eu dyddiad;

| Gweithgaredd | Hen Ddyddiad | Dyddiad Newydd |
|---|---|---|
| Noson Rieni Blwyddyn 11 | 11/11/2024 | 18/11/2024 |
| Galwadau Ffôn Oed Cynradd | 11+12/11/2024 | 18+19/11/2024 |
| Brechiadau Ffliw 7,8,9 | 13/11/2024 | 4/12/2024 |
| Brechiadau Ffliw 10 ac 11 | 14/11/2024 | 5/12/2024 |
| Ffug Arholiad Llafar Unigol Cymraeg (Bl 10) | w/c 11/11/2024 | w/c 18/11/2024 |
| Arholiad Llafar Unigol Cymraeg (Bl 10) | w/c 18/11/2024 | w/c 25/11/2024 |
| Cyfarfod Is-Bwyllgor Cwricwlwm, Safonau a Staffio'r Corff Llywodraethol | 13/11/2024 | 4/12/2024 |



# Gwisg Ysgol

Yn dilyn casglu barn disgyblion, staff a chi fel rhieni a gofalwyr am y wisg ysgol, cafwyd cyfarfod ychwanegol o'r Corff Llywodraethol nol ym mis Medi er mwyn ystyried y sylwadau a gweld a oedd angen gwneud unrhyw addasiadau. Yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod hwnnw, aethpwyd ag argymhellion ymlaen at y Corff Llywodraethol ar yr 8fed o Hydref a chytunwyd ar y newidiadau isod o Fedi 2025.

Rydym yn ymfalchio yn y ffaith ein bod yn medru gosod polisi gwisg sydd yn ystyried barn holl rhanddeiliaid yr ysgol ac sy'n ffoddiadwy. Gweler isod fanylion y wisg o Fedi 2025. Bydd 12 mis o bontio o Fedi 2025 Fedi 2026 wrth i ni symud o un polisi i'r llall.

**Gwisg Disgyblion Meithrin i Flwyddyn 6 (o Fedi 2025)**

| | |
|---|---|
| **Crys chwys / Cardigan** | Coch gyda logo ysgol |
| **Crys polo** | Melyn gyda logo ysgol |
| **Trowsus neu sgert** | Du plaen |
| **Esgidiau** | Du plaen |
| **Gwisg Haf** | Ffrogiau Gingham coch<br>Siorts du plaen wedi ei teilwra |
| **Dillad Addysg Gorfforol** | Crys chwaraeon coch gyda logo ysgol<br>Siorts du<br>Daps du neu drenars |
| **Cot** | Cot synhwyrol o drwch addas i'r tywydd. Dylid tynnu cotiau tu mewn i'r adeilad. |
| **Gemwaith** | Un styd yn y glust / yn y ddwy glust |
| **Gwallt** | Steil a lliw naturiol sydd ddim yn tynnu sylw |

**Gwisg Disgyblion Blynyddoedd 7 i 11**

| | |
|---|---|
| **Siwmper / Cardigan** | Du gyda logo ysgol neu fflis ddu swyddogol gyda logo'r ysgol |
| **Crys / Blowsen** | Gwyn plaen llewys hir |
| **Tei** | Tei swyddogol yn lliwiau'r ysgol |
| **Trowsus neu sgert** | Du plaen (Dim jîns na legins, dim sgertiau steil tiwb). Sgertiau i fod dim mwy na 10cm uwchben y benglin. |
| **Esgidiau** | Lledr, plaen du – dim "boots", dim esgidiau canfas. |
| **Gwisg Haf** | Crys polo coch gyda logo ysgol fel opsiwn |
| **Dillad Addysg Gorfforol** | Crys chwaraeon coch a du swyddogol gyda logo ysgol<br>Siorts / Sgort ddu blaen neu leggins du plaen<br>Sanau coch a du Addysg Gorfforol a trenars |
| **Cot** | Cot synhwyrol o drwch addas i'r tywydd. Dylid tynnu cotiau tu mewn i'r adeilad. Dim cotiau lledr na denim. |
| **Gemwaith** | Un styd yn y glust / yn y ddwy glust. Dim gemwaith arall gan gynnwys yn y trwyn. |
| **Colur** | Colur naturiol. Dim ewinedd acrylig na estyniadau i'r blew amrannau (eyelashes). |
| **Gwallt** | Steil a lliw naturiol sydd ddim yn tynnu sylw |

**Disgyblion Blwyddyn 12 ac 13**

| | |
|---|---|
| **Siwmper / Cardigan** | Du gyda logo ysgol neu fflis ddu swyddogol y chweched gyda logo'r ysgol |
| **Crys / Blowsen** | Gwyn plaen llewys hir |
| **Tei** | Coch tywyll gyda logo'r ysgol |
| **Trowsus neu sgert** | Du plaen (Dim jîns na legins, dim sgertiau steil tiwb). Sgertiau i fod dim mwy na 10cm uwchben y benglin. |
| **Esgidiau** | Lledr, plaen du |
| **Gwisg Haf** | Crys glas y chweched gyda logo ysgol fel opsiwn |
| **Dillad Addysg Gorfforol** | Crys chwaraeon coch a du gyda logo ysgol<br>Siorts / Sgort ddu blaen neu leggins du plaen |
| **Cot** | Cot synhwyrol o drwch addas i'r tywydd. Dylid tynnu cotiau tu mewn i'r adeilad. Dim cotiau lledr na denim. |
| **Gemwaith** | Gemwaith synhwyrol nad sydd yn tynnu sylw |
| **Colur** | Colur naturiol. Dim ewinedd acrylig na estyniadau i'r blew amrannau (eyelashes). |
| **Gwallt** | Steil a lliw naturiol sydd ddim yn tynnu sylw |

**LINC I'R POLISI O FEDI 202**

## COFIWCH!!

**Esgidiau**: Ni fyddwn yn derbyn disgyblon i mewn yn y bore sydd yn gwisgo "boots" gwaith ar eu traed e.e. Redback. Rydym yn hapus i dderbyn esgidiau du plaen neu drenars du lleder ond nid yw esgidiau chwaraeon na esgidiau canfas yn dderbyniol.

**Sgertiau a Thrwsusau:** Mae angen i sgertiau i fod o hyd rhesymol uwchben y benglin (dim mwy na 10cm). Ni dderbynir sgertiau steil tiwb. Dylai trwsusau i fod yn drwsus ysgol wedi eu teilwra; nid "leggins" na thrwsus chwaraeon.

**Gwallt, Gemwaith a Cholur.** Un styd yn y glust / ddwy glust. Dim gemwaith arall gweledol gan gynnwys yn y trwyn. Colur naturiol - dim ewinedd acrylig na estyniadau i'r amrannau (eyelash extensions). Gwallt o liw a steil naturiol.

# LLWYDDIANNAU CENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i Leri ar ei llwyddiant ym myd caiaco. Leri yw Pencampwraig Cymru dan 10, dan 11 a dan 12 oed. Gwych!







Llongyfarchiadau i Steffan a Bronwen ar gael eu dewis i fod yn rhan o garfan Hwylio Ieuenctid Cymru ar gyfer 2024-25. Arbennig!



Llongyfarchiadau i Alaw a Lily ar gael eu dewis i garfan rygbi merched BGC Cymru. Pob lwc ferched.





# Llais y Disgybl



Mae’r Fforymau 'n gyfle i ddisgyblion yr ysgol leisio’u barn ar agweddau amrywiol o'r ysgol a’r gymuned y tu hwnt. Dyma ble mae trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch gweithgareddau yn digwydd, ac yna cawn weld ffrwyth llafur y disgyblion.


















| Nod y Fforymau | Beth sydd ar y gweill? |
|---|---|
| Mae'r fforwm cymunedol a dyngarol yn datblygu gwybodaeth pawb o’r heriau mae pobl yn wynebu yn ein cymuned ni a chymunedau byd eang a thrwy hynny adnabod ffyrdd o’u cefnogi gan gynnwys cefnogi elusennau. | Codwyd dros £250 o elusen Macmillan yn y Bore Coffi i’r staff a’r Chweched.<br><br>Diwrnod Plant Mewn Angen - 15/11/24  |
| Mae'r fforwm Eco a'r Amgylchedd yn trafod materion sy’n ymwneud a’r amgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried ffyrdd o wella a chyfoethogi ein amgylchedd yn yr ysgol, yn lleol a thu hwnt. | Mae’r Fforwm wedi penderfynu cefnogi ymgyrch The Crisp Packet Project, ble mae hen bacedi creision yn cael eu hail-ddefnyddio i greu blancedi i’r digartref. Dewch â’ch hen bacedi creision i’r ysgol erbyn dechrau Rhagfyr.  |
| Mae'r fforwm cydraddoldeb a llesiant yn ystyried materion sy’n ymwneud a ecwiti a chydraddoldeb er mwyn anelu at Ysgol Bro Teifi sy’n llwyr gynhwysol lle mae pob disgybl yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a’u clywed. | Mae’r Fforwm yn dymuno sefydlu ‘bydis’ rhwng disgyblion hŷn yr ysgol a’r disgyblion iau.<br><br>Maen nhw hefyd eisiau codi ymwybyddiaeth o gyflyrrau gwahanol yn ogystal â dyddiadau sy’n dathlu amrywiaeth. |
| Mae'r fforwm Cymreictod yn trafod ffyrdd o hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ac hefyd yn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr i feithrin balchder am yr iaith Gymraeg.  | Mae disgyblion yr ysgol wedi ateb holiadur y Siarter Iaith ac mae’r Fforwm wedi dadansoddi’r canlyniadau.<br><br>25/10/24 - Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd<br>• ymweliad gan Mr Urdd<br>• Codi ymwybyddiaeth disgyblion o gerddoriaeth Gymraeg |
| Mae'r fforwm dysgu ac addysgu yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr i drafod eu profiadau dysgu, y cwricwlwm a chynnig syniadau ynglŷn a sut i gyfoethogi eu haddysg yn y dosbarth ymhellach. | Mae’r Fforwm eisiau sefydlu Bydis Pynciol - cyfle i’r Chweched cynorthwyo disgyblion gydag adolygu a sgiliau pynciol. |

# Blaenoriaethau'r ysgol 2024-25

Gweler isod, flaenoriaethau datblygu'r ysgol am eleni.  Rydym wedi cytuno ar y blaenoriaethau isod yn dilyn casglu gwybodaeth am yr ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys drwy holiaduron gyda chi fel rhieni.  Ar y dudalen nesaf, cewch rhai syniadau ynghylch sut gallwch chi gefnogi'r ysgol yn ei thaith wella barhaus.

**BLAENORIAETHAU BRO TEIFI – 24/25**

**BRO TEIFI PRIORITIES – 24/25**

1. DATBLYGU MEDRAU DISGYBLION ER MWYN SICRHAU CYNNYDD PARHAUS
   DEVELOP PUPILS'SKILLS IN ORDER TO ENSURE CONTINUOUS PROGRESS
2. GWEITHREDU DATBLYGIADAU PELLACH I GWRICWLWM YR YSGOL
   IMPLEMENT FURTHER DEVELOPMENTS TO THE CURRICULUM
3. GWELLA LEFELAU PRESENOLDEB DYSGWYR AR DRAWS YR YSGOL
   IMPROVE PUPIL ATTENDANCE ACCROSS THE SCHOOL
4. GWREIDDIO ARFERION ADDYSGEG CADARN AR DRAWS YR YSGOL
   EMBED GOOD TEACHING ACROSS THE SCHOOL
5. DATBLYGU YMHELLACH STRATEGAETH LLESIANT YR YSGOL
   DEVELOP FURTHER THE SCHOOL'S WELLBEING STRATEGY
6. DATBLYGU YMHELLACH ARWEINWYR AR BOB LEFEL YN YR YSGOL
   DEVELOP FURTHER LEADERS AT ALL LEVELS IN THE SCHOOL

## *Oni Heuir, Ni Fedir*

## Sut gallwch fel rhieni/gofalwyr ein cefnogi i gylawni ein blaenoriaethau?

## *How can you as parents/carers support us in meeting our priorities?*

- Annog eich plant i gymryd rhan weithredol yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwneud yn siŵr fod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn barod i ddysgu (gwisg gywir, offer cywir a.y.b.).
- Cysylltu gyda'r ysgol yn syth os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu.
- Osgoi tynnu plant allan o'r ysgol e.e. ar wyliau adeg tymor.
- Ceisiwch trefnu apwyntiadau meddygol tu allan i oriau ysgol.
- Cefnogi eich plant i baratoi ar gyfer asesiadau, profion ac arholiadau allanol drwy sicrhau amser priodol ar gyfer paratoi a gofod tawel i ddysgu adref.
- Annog eich plant i ddarllen adref ac, i rieni plant iau, darllen gyda nhw adref yn ddyddiol.
- Ymarfer tablau a sillafu yn aml adref er mwyn atgyfnerthu sgiliau sylfaenol.
- Mynychu pob noson rieni er mwyn deall yn well sut gallwch gefnogi eich plentyn i lwyddo.
- Monitro gwaith cartref eich plentyn a sicrhau eu bod yn cwblhau'r gwaith ar amser ac i safon dda.
- Cyfathrebu gyda arweinwyr yr ysgol drwy e-bost neu ffon os oes rhywbeth yn eich poeni.
- Annog eich plentyn i siarad gyda chi yn agored adref os oes rhywbeth yn eu poeni.
- Annog eich plentyn i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau llais y disgybl yn yr ysgol
- Monitro ymddygiad a llwyddiannau eich plant ar Edulink a chefnogi polisïau'r ysgol wrth ymwneud a'r materion uchod.
- Cyfrannu at weithgareddau llais rhieni/gofalwyr (e.e. holiaduron barn).
- Annog eich plentyn i ddatblygu agwedd bositif at yr ysgol ac at addysg yn gyffredinol.

- Encourage your children to be actively involved in the school's curriculum.
- Make sure your children attend school regularly and are ready to learn (correct uniform and resources etc.).
- Contact the school immediately if your child is unable to attend.
- Avoid taking children out of school e.g. on holidays during term time.
- Try to schedule medical appointments outside of school hours.
- Support your children to prepare for external assessments, tests and exams by ensuring appropriate time for preparation and a quiet space to learn at home.
- Encourage your children to read at home and, for parents of younger children, read with them at home daily.
- Practice times tables and spelling regularly at home to reinforce basic skills.
- Attend every parents' evening to better understand how you can support your child to succeed.
- Monitor your child's homework and ensure they complete the work on time and to a good standard.
- Communicate with school leaders by email or phone if something is bothering you.
- Encourage your child to talk to you openly at home if something is bothering them.
- Encourage your child to be actively involved in pupil voice activities at school
- Monitor your children's behaviour and successes on Edulink and support school policies in relation to the above.
- Contribute to parent/carer voice activities (e.g. questionnaires).
- Encourage your child to develop a positive attitude to school and to education in general.

**#TîmBroTeifi**

# GWRTH FWLIO



## Mae lles ein disgyblion yn bwysig i ni yma yn Ysgol Bro Teifi.

Os oes gennych chi neu eich plentyn unrhyw bryder am les disgybl gan gynnwys bwlio mae sawl ffordd y gallwch gysylltu â ni:

Mae'r Botwm Becso ar dudalen gartref ein gwefan. Wrth glicio ar y botwm a llenwi'r manylion, bydd eich neges yn ein cyrraedd ni.

E-bostiwch yr ysgol ac fe drefnwn ni alwad ffôn neu gyfarfod:

swyddfa@ysgolbroteifi.ceredigion.sch.uk




**Byddwn fel ysgol yn parhau i godi ymwybyddiaeth ein disgyblion o fwlio, gan gynnal gweithgareddau yn ystod wythnos gwrth-fwlio. Atgyfnerthwn egwyddorion yr ysgol:**

PARCH

TEGWCH

CAREDIGRWYDD

# Ffair Nadolig

## YSGOL BRO TEIFI

TACHWEDD

NOS IAU | 28 | 5yh - 7yh

STONDINAU AMRYWIOL
A
GROTO SIÔN CORN

I ARCHEBU BWRDD FFONIWCH YR YSGOL
01559362503
NEU
E-BOSTIWCH

swyddfa @broteifi.ceredigion.sch.uk



# Gyrfaoedd

Mae nifer o weithgareddau yn ymwneud ag Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith wedi digwydd yn yr ysgol yn ystod yr hanner tymor diwethaf, gan gynnwys gweithdy ‘Confident Communicators’ i flwyddyn 13 a diwrnod o ffug gyfweliadau iddyn nhw. Yn ogystal mae blwyddyn 11 wedi bod yn rhan o weithdy ysgrifennu CV gyda Chynllun Profi, a bydd eu ffug gyfweliadau nhw ar y 4ydd o Chwefror 2025.

Mae Gyrfa Cymru newydd ryddhau eu cylchlythyr nhw i rieni:

- Cylchlythyr ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

- Cylchlythyr ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg prif ffrwd




Os ydych chi’n gyflogwr ac yr hoffech chi ddod â stondin, cysylltwch â Mrs Alwen Thomas
ThomasA695@broteifi.ceredigion.sc.uk

# Dathlu Diwrnodau Allweddol

## DIWRNOD IEITHOEDD EWROPEAIDD

Trefnodd disgyblion TGAU Sbaeneg weithgareddau amrywiol i ddathlu Diwrnod Ieithoedd Ewrop. Cafwyd gweithgareddau digidol rhyngweithiol, cwis a danteithion blasus!






## DIWRNOD IECHYD MEDDWL Y BYD

Trefnodd disgyblion Iechyd a Gofal Blwyddyn 12 stondin i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

Prif negeseuon y Chweched oedd ei bod hi'n bwysig ein bod yn neilltuo amser i'r hyn sydd yn ein gwneud ni'n hapus, a'i bod hi'n iawn i beidio â bod yn iawn. Mae cymorth bob amser ar gael.














Diolch i griw o ddisgyblion y Chweched am ffilmio ein fideo i ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae. Diolch i rai o fusnesau Llandysul am ymuno yn yr hwyl!





# PAM MAE PRESENOLDEB YN BWYSIG

Nid yw 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos yn ymddangos fel llawer, ond......

**95%**

Yn gyfartal i =
9 diwrnod wedi'u colli
18 sesiynau wedi'u colli
1.4 wythnosau wedi'u colli
45 gwersi wedi'u colli i

**90%**

Yn gyfartal i =
19 diwrnod wedi'u colli
38 sesiynau wedi'u colli
3.4 wythnosau wedi'u colli
95 gwersi wedi'u colli

**80%**

Yn gyfartal i =
36 diwrnod wedi'u colli
72 sesiynau wedi'u colli
7.1 wythnosau wedi'u colli
180 gwersi wedi'u colli

**70%**

Yn gyfartal i =
57 diwrnod wedi'u colli
114 sesiynau wedi'u colli
11.2 wythnosau wedi'u colli
285 gwersi wedi'u colli

**65%**

Yn gyfartal i =
67 diwrnod wedi'u colli
134 sesiynau wedi'u colli
13.2 wythnosau wedi'u colli
335 gwersi wedi'u colli

# BETH I WNEUD PAN MAE EICH PLENTYN YN GWRTHOD MYNYCHU YSGOL

### CYFEILLGARWCH A RHYNGWEITHIO CYMDEITHASOL

Atgoffwch nhw fod yr ysgol yn lle pwysig i gwrdd â ffrindiau, 'cadw mewn cysylltiad' â'r hyn y mae eu cyfoedion yn ei wneud, yn ogystal â datblygu sgiliau i ddelio â sefyllfaoedd anghyfforddus. Gall colli'r cyswllt cymdeithasol pwysig hwn â'r ysgol ychwanegu at bryderon sy'n bodoli eisoes a gwadu cyfleoedd allweddol iddynt ddysgu sut i ddelio â phroblemau cymdeithasol bob dydd.

### NEGESEUON CLIR

Ni ddylai'r cwestiwn fod os yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol ond pryd y bydd yn mynd. Sicrhewch fod eich plentyn yn ymwybodol mai'r disgwyl yw ei fod yn mynychu'r ysgol. Mae gosod disgwyliadau clir yn osgoi dryswch a ffiniau aneglur ond hefyd yn cynyddu'r siawns y bydd y plentyn yn cyflawni'r nodau a osodwyd ar ei gyfer.

### BYDDWCH YN HONEST

Defnyddiwch ddatganiadau fel 'Rwy'n teimlo...' neu 'Pan fyddwch yn gwrthod, mae'n gwneud i mi deimlo....' . Mae defnyddio'r datganiadau hyn yn ffordd gadarnhaol o roi gwybod i'ch plentyn sut rydych chi'n teimlo. Mae'n caniatáu iddynt ystyried pethau o'ch safbwynt chi. Bydd esbonio i'ch plentyn sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n cael cyfarfod neu lythyr gan yr ysgol / awdurdod lleol yn ei helpu i sylweddoli sut mae'r sefyllfa'n effeithio arnoch chi.

### PETHAU POSITIF

Mae cydnabod llwyddiannau cadarnhaol yn bwysig. Canolbwyntiwch ar y pethau da e.e. ffrindiau ysgol, hoff bynciau ac ati. Defnyddiwch ddatganiadau fel 'Rwy'n gwybod y gallwch chi ei wneud' 'Rydych chi wedi'i wneud o'r blaen, gallwch ei wneud eto' neu 'rydym wedi trafod hyn. Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?' Bydd y datganiadau hyn yn annog y plentyn i wynebu yn hytrach nag osgoi tarddiad ei bryderon.

### TEIMLO YN SAL

Gall eich plentyn gwyno am gur pen, poenau yn y stumog, teimlo'n sâl. Mae'n bwysig sefydlu nad oes ganddynt salwch parhaus difrifol, sy'n eu hatal rhag bod yn yr ysgol.

### BOD YN DREFNUS

Gwnewch yn siŵr eich bod yn drefnus er mwyn cael eich plentyn i'r ysgol mewn pryd. Gall llawer o ddisgyblion deimlo cywilydd yn hawdd os ydynt yn cyrraedd yn hwyr i'r dosbarth sydd wedyn yn effeithio ar eu ffocws. Efallai y bydd angen i chi hefyd sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer cawodydd, brecwast ac ati. Byddai arferion da eraill yn cynnwys negodi cyrffyw 'diwrnod ysgol' rhesymol.

### GWOBRWYO YMDDYGIAD CADARNHAOL

Mae gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn hanfodol i atgyfnerthu presenoldeb da yn yr ysgol. Drwy gydnabod bod eich plentyn yn codi'n brydlon, yn gwisgo'n ddiffwdan, cyrraedd yr ysgol ar amser, yn ei annog i ailadrodd yr ymddygiadau hyn. Weithiau mae canmoliaeth a chydnabyddiaeth yn ddigon i blant.
Nid oes angen i wobrau fod yn gostus e.e. coginio eu hoff bryd.

### CYDWEITHIO

Rydym yn cydnabod bod sefyllfa pawb yn wahanol.

Os teimlwch fod sefyllfaoedd yn eich bywyd neu fywyd eich plentyn sy'n eu hatal rhag mynychu'r ysgol/mynychu'n brydlon, gallwch gael cyngor a chefnogaeth gan eich ysgol neu'r Awdurdod Lleol. Rydyn ni i gyd yma i'ch helpu a'ch cefnogi.

I siarad â'r Awdurdod Lleol cysylltwch â 01545 570881 a gofynnwch am gael siarad â rhywun o'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

# Grant Hanfodion Ysgol

Gall rhieni plant sydd yn byw mewn cartrefi ar incwm isel ac sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol wneud cais am y grant o:

## £125 i bob dysgwr!

**(£200 i'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn ym mlwyddyn 7 i helpu gyda'r costau uwch sydd yn gysylltiedig â dechrau'r ysgol uwchradd)**

Mae pob blwyddyn ysgol orfodol o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11 bellach yn gymwys. Gall teuluoedd dim ond gwneud un cais ar gyfer pob plentyn, unwaith ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Mae cynllun 2024 i 2025 bellach ar agor ac yn cau mis 31 Mai 2025. Dilynwch y linc isod am fwy o wybodaeth ac i wneud cais:

https://www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol




01559 362503 swyddfa@broteifi.ceredigion.sch.uk www.ysgolbroteifi.cymru